**EISTEDDFOD YR URDD SIR GAERFYRDDIN 2023**

**Rhif 81 – Côr Cerdd Dant Bl 6 ac iau (dim mwy na 30 mewn nifer)**
Twm Siôn Cati – Tudur Dylan Jones

Cainc: Y Foryd– Gwennant Pyrs (122) – Nudd  Gwyn a Cheinciau Eraill

## Twm Siôn Cati

Bu sôn am Twm Siôn Cati
drwy'r holl flynyddoedd maith,
yn troi ei hun yn chwedl
wrth gylchu'r wlad ar daith,
yn mynd fan hyn a mynd fan draw
drwy niwl a gwynt, mewn haul a glaw.

Bu sôn am Twm Siôn Cati
yn cuddio rhag y drefn,
ymddangos gefn nos golau
a chuddio nôl drachefn,
un cam bob tro o flaen y rhai
a welai Twm o hyd ar fai.

Mae sôn fod Twm Siôn Cati
yn dal i droedio'r tir,
i rai yn ddim ond cysgod
a rhai'n ei weld yn glir,
ac afon Tywi yn ein clyw
yn dweud o hyd fod Twm yn fyw.

Tudur Dylan Jones